

Date/Dyddiad: 26 June 2018

Ask for/Gofynwch am: Miss Charlotte Pugh

Telephone/Rhif ffon: (01446) 704662

Your Ref/Eich Cyf:

My Ref/Cyf: P/DC/CLP/2012/00937/S106

e-mail/e-bost: scgfapplications@valeofglamorgan.gov.uk

The Vale of Glamorgan Council
Dock Office, Barry Docks, Barry CF63 4RT
Tel: (01446) 700111

Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfa'r Doc, Dociau'r Barri, Y Barri CF63 4RT
Ffôn: (01446) 700111

www.valeofglamorgan.gov.uk



Annwyl Syr/Fadam

Parthed: Cronfa Grant Cymunedau Cryf

Rwyf yn cysylltu i roi gwybod i chi am Gronfa Grant Cymunedau Cryf, sy'n rhoi grantiau i Grwpiau Cymunedol, y Sector Gwirfoddoli, Cyngorau Tref a Chymuned a Mentrau Cymdeithasol, i gyfrannu at gostau mentrau ym Mro Morgannwg sy'n helpu i gefnogi gweledigaeth y Cyngor o "gymunedau cryf â dyfodol llewyrchus".

Nod y gronfa yw:

- Gwella gwydnwch sefydliadau/grwpiau neu eu gweithgareddau drwy ariannu gweithgareddau sy'n ychwanegu gwerth at eu gwaith presennol a'u gwneud yn llai dibynnol ar arian grant yn y dyfodol.
- Cyfrannu arian hadau corn at fentrau a all ddangos eu bod yn gynaliadwy yn y tymor hwy.
- Ymgymryd â gwaith ymgynghori, dichonoldeb, dylunio a gwaith arbenigol arall i ddatblygu cynigion ar gyfer gweithgarwch a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol.
- Talu am gostau cyfalaf cynlluniau drwy brynu cyfarpar, peirannau, offer ac asedau eraill.
- Ymgymryd â gwaith er mwyn darparu gwasanaethau, er enghraifft, drwy gynyddu'r potensial ar gyfer cynhyrchu incwm.
- Cefnogi projectau bach ac arloesol.

Dechreuodd y Gronfa graidd â chyfanswm o £672,000 dros dair blynedd o 2017 tan fis Mawrth 2020. Nid oes terfynau isaf nac uchaf i'r grant, ond mae sicrhau gwerth am arian yn elfen allweddol o'r asesu a disgwylir i'r galw fod yn uchel.

Penarth i fanteisio ar Adran 106

Yn ogystal â'r gronfa graidd, mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi clustnodi £50,000 ychwanegol y gall ym Mhenarth yn benodol ymgeisio amdano. Cafodd y Cyngor yr arian hwn gan Crest Nicholson yn unol â Chytundeb Adran 106 (yn gysylltiedig â gwaith datblygu yn Penarth Heights - cyfeirnod 2007/00295/FUL), yn benodol i ddarparu/gwella Celf Cyhoeddus ar y safle ac yng nghyffiniau Penarth Heights. "Arian Adran 106" yw'r enw a ddefnyddir am y rhain yn aml.

Mae telerau ac amodau ynghlwm wrth arian Adran 106. Mae'r Cytundeb Adran 106 yn diffinio "Celf Cyhoeddus" fel a ganlyn:

“celf sy'n waith gwreiddiol gan arlunydd proffesiynol byw ac a greir ar gyfer lleoliad penodol ar safle, sy'n cael ei gomisiynu gan eraill megis penseiri, dylunwyr tirlun, cynllunwyr, datblygwyr, swyddogion celf a chynrychiolwyr cymunedol, neu ar y cyd â hwy, a/neu i greu cymhwyster cymunedol gan gynnwys lleoliad celfyddydau (yn rhan o'r Gwaith Datblygu neu fel arall) a darpariaeth arall fel y cytunir arno gan y Cyngor yn ysgrifenedig.”

Mae'r arian Adran 106 yn gallu felly fynd at gefnogi cynlluniau ar gyfer “Celf Cyhoeddus” ar y safle; yng nghyffiniau Penarth Heights, neu yn ardal ehangach Penarth.

Mae'r Cyngor yn croesawu grwpiau yn ardal Penarth i ddod ymlaen a gwneud cais am arian Adran 106 drwy'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf. Dyma ddyddiadau cau'r ddau gylch nesaf:

- 3 Awst 2018
- 2 Tachwedd 2018

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Miss Charlotte Pugh
ar ran y Rheolwr Gweithredol Rheoli Datblygu